# ATODIAD

## Gwynedd yn cadarnhau buddsoddiad carbon isel

Mae Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd wedi pleidleisio i symud cyfran sylweddol o Gronfa Bensiwn Gwynedd i fuddsoddiadau carbon-isel.

Yn dilyn penderfyniad unfrydol y Pwyllgor Pensiynau, bydd 12% o Gronfa Gwynedd yn symud i fuddsoddiadau carbon isel. Mae hyn yn dilyn mabwysiadu Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn gynharach eleni, sy'n amlinellu'r angen i ystyried y risgiau penodol daw o newid hinsawdd wrth ystyried buddsoddiadau.

Dywedodd y Cynghorydd John Pughe Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd:

"Rydym wedi bod yn gweithio ers peth amser i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd, ein hymgynghorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi dweud wrth ein rheolwyr asedau i ymgysylltu gyda chwmnïau o ran eu cynlluniau ar gyfer dyfodol carbon isel. Mae hyn wedi galluogi'r Gronfa Bensiwn i roi pwysau ar gwmnïau i gynyddu eu hymdrechion yn y maes pwysig hwn.

"Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn gallu sicrhau y bydd ein buddsoddiadau yn darparu pensiynau addas i aelodau'r gronfa ar gyfer y dyfodol. Rydw i'n hyderus fod buddsoddi 12% (£260m ar hyn o bryd) o'r Gronfa Bensiwn mewn cronfa ecwiti carbon isel yn gosod cydbwysedd cyfrifol ac yn tanlinellu ein hymrwymiad i ddyfodol mwy gwyrdd."

Meddai Aelod Cabinet Cyllid Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Ioan Thomas, sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau:

"Mae materion amgylcheddol a'r agenda werdd yn cael ei briod le ar flaen meddyliau pobl y dyddiau hyn. Mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn arwain o'r blaen wrth wneud beth bynnag y gallwn ni i sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfrifol rŵan, ac yn ystyried yr effaith y bydd ein gweithredoedd yn eu cael ar genedlaethau'r dyfodol.

"Fe gytunodd Pwyllgor Pensiynau'r Cyngor y llynedd y dylai ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol gael eu mewnblannu i'n prosesau buddsoddi ac mae'r datblygiad diweddaraf yma yn amlygu sut ydym yn edrych i symud tuag at asedau mwy gwyrdd.

"Mae'r buddsoddiad carbon isel yn rhan o ymdrechion ehangach gan Gyngor Gwynedd i chwarae ein rhan wrth leihau allyriadau carbon. Yn wir, ers cyflwyno Cynllun Rheoli Carbon, mae Cyngor Gwynedd wedi lleihau ôl-troed carbon o 39% ers 2010.

"Fel Cyngor cyfrifol, rydw i'n falch ein bod yn arwain y ffordd o ran buddsoddi cyfrifol a bod y penderfyniad yma yn arwydd o symudiad clir i flaenoriaethu egwyddorion buddsoddi carbon isel."

Ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth cynghorwyr Gwynedd yng nghyfarfod o'r Cyngor llawn gefnogi rhybudd o gynnig i ddatgan argyfwng newid hinsawdd. Yn ystod y drafodaeth, fe wnaeth cynghorwyr ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rheoli £2.1bn o gronfa ar gyfer cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, Heddlu Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a 36 o gyflogwyr eraill yng ngogledd orllewin Cymru.